## HUW EDWARDS yn holi

# Beth sydd ar eich pennau chi?

## — ac a ydyw Penwyddeg yn dychwelyd?

ROEDD Lloyd George yn gredwr cryf mewn 'darllen pennau' ac roedd hynny'n wir am lawer o enwogion y genedl Gymreig yn ystod y ganrif ddiwethaf. O ran hynny roedd ffrenoleg yn boblogaidd trwy Brydain, Ffrainc a'r Amerig hefyd. Dywedodd Richard Whatley, Archesgob Anglicanaidd Dulyn, ei fod 'mor sicr ynglŷn â gwirionedd ffrenoleg ag ydwyf fod yr haul yn awr yn yr wybr' ac roedd Richard Cobden a hyd yn oed Alfred Russell Wallace yn argyhoeddedig ynglŷn â dilysrwydd y ffug-wyddor hon hyd ddiwedd eu hoes.

Eilliwyd pen George Elliot ddwywaith gan ffrenolegwyr er mwyn hwyluso'r gwaith o 'ddarllen' siâp ei phenglog yn gywir ac yn fanwl ac fe sicrhaodd y Frenhines Fictoria fod rhywun yn darllen pen pob un o'i phlant.

Sefydlwyd ffrenoleg gan Franz Joseph Gall (1758-1828), meddyg o Awstria. Roedd yn ŵr galluog a wnaeth waith pwysig a blaengar ar anatomeg yr ymennydd, gan ganolbwyntio yn arbennig ar y cortecs. Daeth i gredu fod yr ymennydd yn cynnwys nifer o 'organau' gwahanol a oedd wedi'u lleoli mewn mannau penodol. Rheolai'r organau hyn y gwahanol gynheddfau, neu 'ermigau' (i ddefnyddio term y ffrenolegwyr Cymreig) a oedd yn ffurfio'r bersonoliaeth unigol.

Aeth Gall ymlaen i daeru fod siâp y benglog — pob pant a chwydd — yn adlewyrchu siâp a holl nodweddion yr ymennydd oddi tano.

Medrai unrhyw un a gafodd hyfforddiant, ac a oedd wedi magu profiad yn y pethau hyn, ddweud tipyn go lew am gymeriad rhywun petai ond yn craffu ar siâp cyffredinol ei ben. Gydag archwiliad manylach, trwy fyseddu'r pen a chan ddefnyddio'r calipr, gellid gwneud asesiad llawer manylach a mwy ystyrlon.

Byddai darlleniad neu 'graniosgopi' o'r fath yn galluogi'r ffrenolegydd i gynnig i'r unigolyn well dealltwriaeth o'i bersonoliaeth a'i botensial.

* * * *

LLWYDDODD Gall i adnabod 27 cynneddf neu ermig. Medrodd ei ddisgybl a'i olynydd, Johann Caspar Spurzheim, ddarganfod 33 ermig. Gydag amser diffiniwyd mwy a mwy o ermigau nes cyrraedd 42, y nifer a dderbyniwyd yn gyffredinol erbyn canol y ganrif ddiwethaf.

Yn nes ymlaen ceisiwyd bod yn fanylach, gan hyd yn oed awgrymu fod modd adnabod chwydd ar y pen a oedd yn cyfateb i'r duedd i gefnogi rhyw blaid wleidyddol arbennig!

Pwnc dadleuol arall oedd sut y dylid mesur y mannau tyngedfennol hyn ar y pen yn fanwl ac yn gywir. Defnyddiai Gall fesur syml ac amrwd iawn megis 'eithaf bychan', 'bychan iawn', neu 'mawr iawn'. Ond ni wnâi hyn y tro i'w ddilynwyr. Credent fod angen mesuriadau manylach o lawer er mwyn sicrhau fod y casgliadau'n rhai gwirioneddol ddilys a dibynadwy.

Er mai Gall oedd y sefydlydd, ei ddisgybl Spurzheim gafodd fwyaf o ddylanwad ac ef a fu'n bennaf gyfrifol am boblogeiddio'r 'wyddor' (llwyddodd y ddau i ffraeo'n anghymodlon ynglŷn â manylion athrawiaethol y wyddor newydd yn 1813).

Cyhoeddodd Spurzheim nifer o lyfrau ar ffrenoleg ac ymwelodd â Phrydain yn 1814 er mwyn darlithio ac arddangos ei ddulliau o weithredu. Cafodd wrandawiad arbennig o wresog yng Nghaeredin lle cyfarfu â chyfreithiwr o'r enw George Combe a ddaeth, yn y man, yn awdur toreth o lyfrau ar y pwnc (roedd mynd mawr arnynt, yn enwedig ei *Constitution of Man* a werthodd dros 100,000 o gopïau rhwng 1828 a 1855) ac yn brif ladmerydd ffrenoleg yn y byd Seisnig.

Dilynodd Spurzheim i'r Unol Daleithiau ac ef, yn anad neb, a fu'n gyfrifol am ledaenu'r athrawiaeth yno o'r 1830au ymlaen.

Rhannodd Spurzheim nodweddion y bersonoliaeth yn deimladau, tueddfrydau (propensities) a chynheddfau (neu ermigau) gwybod. Lleolwyd y cyntaf wrth gefn yr ymennydd a bathodd dermau megis 'adhesiveness' (diddordeb yn y gymuned), 'combativeness' ac 'amativeness' (gorawydd at serch rhywiol) ar eu cyfer.

Roedd y cynheddfau gwybod i'w cael yn rhan flaen yr ymennydd. Y cynheddfau hyn, megis cydymdeimlad a ffraethineb, sydd yn gwahaniaethu dynion oddi wrth anifeiliaid. Nid oedd gan unrhyw ddau unigolyn yr union gyfuniad o gynheddfau.

Roedd maint y pen, hefyd, yn bwysig ac roedd y ffaith bod pennau merched (ac felly'u hymenyddiau) yn llai o ran maint na rhai dynion yn profi'r ddamcaniaeth mai creadigaethau israddol ydynt.

Credent fod yr un israddoldeb yn perthyn i drigolion Affrica, Asia ac Indiaid Cochion America. Credent, hefyd, fod pen person athrylithgar yn tyfu'n raddol yn ystod ei oes o ganlyniad i'r ffordd y bu'n hir ymarfer ei ymennydd.

Roeddynt yn sicr fod pen Lloyd George wedi tyfu o fod yn 23 modfedd mewn cylchedd pan oedd yn ddeugain oed i 23½ o fodfeddi erbyn iddo gyrraedd ei bedwar deg wyth.

* * * *

RHAN hanfodol o'r athrawiaeth oedd y gred fod modd nid yn unig i ddeall a dadansoddi cymeriad yn fanwl ond, hefyd, bod yr unigolyn yn medru newid a gwella'i gymeriad trwy ei ymdrechion ei hunan. Fel enghraifft o hyn, byddai angen i rywun a oedd yn dioddef o nymffomania wneud ymdrech arbennig i ymarfer ei chynheddfau ymenyddol a moesol er mwyn lleihau ac yna diddymu'r gormodedd o 'Amativeness' a berthynai iddi.

Cyflwynid darlleniad ffrenolegol i'r cwsmer ar siart. Roedd gan bob ffrenolegydd o bwys ei bractis ei hun ac fe alwai ei hun yn 'broffeswr'. Heblaw am fesur y pen fe redai 'i fysedd dros y pen er mwyn adnabod ei siâp.

* * * *

ROEDD y ffrenolegwyr cynnar yn bobl flaengar a oedd yn hollol o ddifrif ynglŷn â'u hawydd i ddefnyddio'r wyddor er mwyn newid cymdeithas er gwell. Roeddynt yn arbennig o awyddus i archwilio pen pob troseddwr, yn y gobaith y byddai'r diagnosis ffrenolegol yn cynnig gwybodaeth a syniadau a fyddai'n debyg o'i weddnewid a'i gadw rhag troseddu eto.

Yn yr un modd roeddynt am archwilio pobl wallgof a diwygio'r holl drefn yn ysbytai meddwl y cyfnod. Credent, hefyd, y dylid archwilio pen pob ymgeisydd seneddol er mwyn darganfod a oeddynt yn bobl addas ar gyfer y fath swydd gyfrifol!

Sefydlwyd nifer o gymdeithasau ffrenolegol o'r 1820au ymlaen a meddygon, cyfreithwyr, clerigwyr a phobl broffesiynol eraill oedd mwyafrif yr aelodau. Sefydlwyd cylchgrawn, y *Phrenological Journal* a fu'n rhedeg yn ddi-dor o 1823 hyd at 1847.

Erbyn tua 1840 roedd y cymdeithasau hyn yn dirywio ac yn darfod ond, erbyn hynny, tyfodd poblogrwydd y mudiad ymhlith y werin ac roedd llawer o gymeriadau diegwyddor yn honni gwybodaeth o'r wyddor ac yn cynnig gwasanaeth cynghori.

* * * *

CAFWYD o leiaf bum llyfr yn Gymraeg ar ffrenoleg rhwng 1839 a 1897, er nad yw'r ddau gyntaf fawr iawn mwy na phamffledau. Teitl y llyfr Cymraeg cyntaf yw *'Pwyllwyddoreg, sef traethawd ar y cydweddiad sydd rhwng yr ymennydd, a'r cynneddfau a'r tueddiadau meddyliol'*; ei awdur oedd John Jones (Cyffin, Glan Conwy), ac fe'i cyhoeddwyd gan John Jones, Llanrwst, yn 1839 (cafwyd ail-argraffiad yn 1855).

Yr ail lyfr oedd, *'Pwyllwyddeg a Mesmeriaeth, neu Ddymgyrchiad bywydol (Living Magnetism) yn cael eu hegluro: Cyfarwyddiadau i Fesmerio, yn nghyda'i Buddioldeb Iachaol'*, gan A. W. Jarvis, Caernarfon, 'Proffeswr yn y Gwyddorau Uchod' ac fe'i cyhoeddwyd gan H. Humphreys yn 1854.

Mae'r ffaith fod llyfr Jarvis yn cyfuno ffrenoleg a mesmeriaeth ynddo'i hun yn ddiddorol gan fod un o arweinyddion y byd ffrenolegol yn Lloegr yn yr 1830au, meddyg o'r enw John Elliotson, wedi ceisio cyfuno'r ddwy wyddor gan sefydlu'r hyn a alwai yn ffrenomesmeriaeth.

Y syniad oedd fod y perlewyg mesmeraidd yn rhoi cyfle i'r meistr ddylanwadu'n uniongyrchol ac effeithiol ar y gwahanol gynheddfau. Daeth yn enwog iawn ond, gydag amser, y mesmeriaeth gafodd y sylw mwyaf ganddo ac eilbeth oedd y ffrenoleg. Cafodd lawer o ddilynwyr ac roedd pum cyfrol ola'r *Phrenological Journal* yn cynnwys bron cymaint ar fesmeriaeth ag oedd ar ffrenoleg. Ni allai hyd yn oed George Combe benderfynu a oedd mesmeriaeth yn estyniad dilys o ffrenoleg.

Gwaith tipyn mwy uchelgeisiol oedd *'Arweiniad i Ymenyddiaeth ac Anianeg, gyd a lliaws o ddarluniau (photographs) er cynorthwyo y darllenydd i adnabod ei hun ynghyd a'i gyd-ddynion'*. Gwaith H. J. Hughes, a ddisgrifiai ei hun fel *'Artist, and practical phrenologist, physiognomist and physiologist'*, oedd y gyfrol hon a gyhoeddwyd ym Mangor yn 1870.

Mae'r rhagymadrodd yn cynnwys llythyr gan Gweirydd ap Rhys. Meddai:

> *'. . . yr wyf yn llwyr gredu yn awr ar ol darllen eich llyfr chwi . . . nad oes un wybodaeth ddynol a ddylai gael ei dysgu yn fanylach, gan rieni a phobl ieuaingc, nag Ymenyddiaeth a Gwynebyddiaeth . . .'*

Yr hyn sy'n hynod ynglŷn â'r gyfrol hon yw bod yr awdur yn cynnwys nid yn unig lun o gynllun ffrenolegol y pen gyda 'rhif yr ermigau' ond hefyd 19 o ffotograffau o bennau gwahanol unigolion a oedd, ym marn yr awdur, yn nodweddu rhyw gynneddf arbennig.